



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Trefniadau'r dyfodol ar gyfer
Rhaglen Cydraddoldeb a
Chynhwysiant Llywodraeth Cymru
ar gyfer 2017-2020

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2015

CYNNWYS

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Cynigion**
- 3. Ymgynghori**
- 4. Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad**
 - 4.1 A oes angen arian prosiect ac arian craidd neu ai dim ond arian prosiect neu arian craidd y dylem ei roi?**
 - 4.2 A ddylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant gwmpasu'r nodweddion gwarchodedig mewn modd cytbwys?**
 - 4.3 A ddylai'r broses gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant ystyried ymhle y caiff gweithgareddau eu darparu er mwyn i ni allu sicrhau bod yr arian yn cwmpasu Cymru gyfan?**
 - 4.4 A ddylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant gefnogi amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020? (yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd)**
 - 4.5 A ddylid dyrannu'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant i gynigion sy'n canolbwyntio'n fwy ar feysydd â blaenoriaeth benodol?**
 - 4.6 A ddylai gweithio mewn partneriaeth fod yn rhan orfodol o'r meini prawf cymhwyster ar gyfer yr arian hwn, gan sicrhau mai dim ond ceisiadau ar y cyd y gellid eu gwneud?**
 - 4.7 A oes unrhyw bwyntiau eraill y dylem eu hystyried, yn eich barn chi, mewn perthynas ag arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant?**
- 5. Y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ymgynghori**
 - 5.1 Atodiad A – Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ymgynghori**

1. CYFLWYNIAD

Ar 20 Ebrill 2015 lansiodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ymgynghoriad ar Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2020.

Nod yr ymgynghoriad oedd:

- casglu barn ar fframwaith cyllido cydraddoldeb a chynhwysiant Llywodraeth Cymru yn y dyfodol;
- ymgysylltu â'r Trydydd Sector a sefydliadau sy'n cynrychioli'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal ag unigolion â diddordeb i sicrhau ein bod yn clywed barn pobl â nodweddion gwarchodedig;
- deall sut gall y fframwaith cyllido gefnogi sefydliadau orau i ddileu'r rhwystrau a wynebir gan bobl.

Mae Cymru yn wlad sy'n seiliedig ar egwyddorion tegwch a chydraddoldeb. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio dros ragor o gydraddoldeb, cynhwysiant a chydlyniant cymunedol yng Nghymru ac i gael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu.

Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith sy'n cynnwys amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r amcanion hyn, a gyhoeddwyd ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd, yn amlygu'r gwahaniaethau ymarferol y mae angen i ni eu gwneud i fywydau pobl yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, rydym wedi ymgynghori ar ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2016-20.

Mae'r Trydydd Sector wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ein dyletswyddau statudol wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn hyn o beth, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi gwaith y Trydydd Sector i'n cynorthwyo ni i weithredu'r agenda hon.

Mae Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-2017 yn cyllido 16 o sefydliadau'r Trydydd Sector, gan ddarparu ledled Cymru, cyrraedd amrywiaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol a'n helpu ni i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn llywio Llywodraeth Cymru ac o gymorth iddi wrth iddi ystyried dewisiadau ar gyfer cyllid posibl yn y dyfodol i ategu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20.

Mae'n rhaid i'r arian sicrhau canlyniadau cadarn a chael effaith gadarnhaol ar y rhai y mae'n canolbwyntio arny'n nhw. Gyda'r pwysau ar wariant cyhoeddus, mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd o fewn fframwaith llywodraethu cadarn.

2. CYNIGION

Dyma'r cynigion a gyflwynwyd gan y Gweinidog:

1. Rhaglen gyllido dros dair blynedd arall

Fe wnaethom geisio barn ar raglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant dros dair blynedd arall rhwng 2017 a 2020.

Fe wnaethom geisio barn ar wahodd cynigion ar gyfer arian prosiect ac arian craidd neu gyfuniad o'r ddau. Mae arian craidd yn cyfeirio at gyllido sefydliadau i gyflawni eu busnes craidd, h.y. costau cynnal. Mae arian prosiect yn cyfeirio at arian ar gyfer gweithgarwch penodol h.y. costau cyflawni prosiect.

Fe wnaethom geisio barn ar y cynnig y byddai'r arian yn cael ei ddyrannu i sicrhau bod y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cwmpasu'n gytbwys dros ardal ddaddebyddol eang.

2. Cysylltu'r Arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Fe wnaethom geisio barn ar y cynnig fod yr arian yn cael ei ganolbwyntio'n agos ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020 ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar gyllid, a gofynnwyd i gyrrff cyhoeddus, sefydliadau'r Trydydd Sector a rhanddeiliaid am eu barn ar yr amcanion cydraddoldeb presennol, ac ar beth y dylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb ganolbwyntio.

3. Dyrannu arian yn ôl thema polisi

Fe wnaethom wahodd safbwyntiau ar y cynnig i ddyrannu arian yn ôl thema polisi i ddenu cynigion sy'n canolbwyntio'n fwy ar feysydd â blaenoriaeth benodol. Yn dilyn ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020, mae'n bosibl y byddwn yn nodi meysydd gwaith penodol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion. Gallai'r meysydd hyn wedyn fod yn sail i broses dyrannu arian. Mabwysiadwyd dull tebyg o weithredu yn dilyn yr ymgynghoriad ar Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-17 a nodwyd bod Canolfannau Byw'n Annibynnol a Chanolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb yn feysydd â blaenoriaeth benodol yr oedd angen rhagor o gymorth ac arian arnyhau nhw.

Roedd yr ymgynghoriad yn esbonio ein bod ni wedi ystyried cyfyngu ar ein harian i sefydliadau sy'n nodi eu bod yn cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig penodol ledled Cymru gyfan (a elwir weithiau'n gyrrff 'ambarél'). Fodd bynnag, nid oeddem o'r farn bod yr opsiwn hwn yn ymarferol gan nad oes gan bob nodwedd warchodedig gorff cynrychioliadol, ac mewn rhai enghreifftiau mae mwy nag un sefydliad neu mae consortiwm o sefydliadau yn darparu mantell genedlaethol. Fe wnaethom wahodd safbwyntiau ar yr ymagwedd hon.

4. Rhoi mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth

Fe wnaethom geisio barn ar y cynnig i nodi'r ffaith bod angen i sefydliadau weithio ar y cyd yn ffurfiol. Er bod gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei annog yn y rownd gyllido flaenorol ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant, fe wnaethom gynnig y gallai cydweithio fod yn ofynnol yn y dyfodol. Credwyd y byddai hyn yn atgyfnerthu partneriaethau'r Trydydd Sector yng Nghymru ac o bosibl yn fodd o gyrraedd rhagor o sefydliadau. Byddai hefyd yn ffordd o alluogi sefydliadau llai o faint i gydweithio i lunio ceisiadau am gyllid ar y cyd.

3. YMGYNGHORIAD

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 20 Ebrill 2015 a 10 Gorffennaf 2015. Roedd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori ar gael, gan gynnwys fersiynau a ffurflenni ymateb hawdd eu darllen ac ar gyfer plant.

Cawsom **30** o ymatebion i'r ymgynghoriad. Dangosir rhestr o'r ymatebwyr yn y tabl isod. Yn ogystal, cawsom **7** ymateb gan sefydliadau nad oedd yn dymuno i'w henwau gael eu cyhoeddi.

Ymatebwyr	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Heddlu Porthcawl
Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent (1)	Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf - grŵp Brynna Jones
Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent (2)	Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf - Grŵp Canolfan Arddio Maesnewydd
Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr	Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf - Cyllido Grwpiau Cymunedol
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg	Y Groes Goch Brydeinig
Catherine Burton	Sense Cymru
Plant yng Nghymru	Stonewall Cymru
Diverse Cymru	Cyngor Sir Abertawe
Estyn	Fforwm Strategaeth 50+ y Fro
Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig	Cyngor Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Whizz-Kidz
KPC Youth & Community	CLILC
NOMS Cymru	Pathfinder i Ferched
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Pobl yn Gyntaf Sir Benfro	

Yn ychwanegol at yr ymatebion ysgrifenedig a nodwyd uchod, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori yng Nghaerdydd, Abertawe a Chyffordd Llandudno. Mae rhestr o sefydliadau a anfonodd gynrychiolwyr i'r digwyddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad A.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori. Y nod yw rhoi trosolwg o hyd a lled yr ymatebion a rhoi syniad o'r materion a gafodd eu codi amlaf. Bydd yr ymatebion yn adnodd hanfodol i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu dewisiadau posibl ar gyfer cyllid yn y dyfodol.

4. YMATEBION I'R CYNIGION

Mae'r ymatebion hyn i'r cynigion yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd mewn ymatebion ysgrifenedig ac yn y digwyddiadau a gynhaliwyd ledled Cymru.

4.1 Cwestiwn 1 - A oes angen arian prosiect ac arian craidd neu ai dim ond arian prosiect neu arian craidd y dylem ei roi?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

- Roedd 89% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen arian craidd ac arian prosiect, tra'r oedd 5% o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid cefnogi prosiectau. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr gynnig sylwadau.
- Mynegodd llawer o sefydliadau pa mor bwysig yw cyllid craidd i'r Trydydd Sector, yn enwedig o ran cynaliadwyedd sefydliadau, yn enwedig sefydliadau llai o faint.
- Roedd sefydliadau'n hoffi ymagwedd hyblyg, a fyddai'n galluogi amrywiaeth o sefydliadau Trydydd Sector i wneud cais am y cyllid, yn hytrach na'u rhoi dan anfantais.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn y digwyddiadau:

- Teimlwyd bod angen arian prosiect ac arian craidd, er y byddai angen diffiniadau clir o ba fath o ddarpariaeth arian craidd ac arian prosiect fyddai'n angenrheidiol.
- Mae perygl o gyllido dwbl.
- Gallai dwy ffrwd gyllido fod yn briodol - er enghraifft, cael dwy gronfa gyllido, gydag un ar gyfer sefydliadau mwy o faint ac un ar gyfer sefydliadau llai o faint. Yn ogystal, awgrymwyd cael cronfa dreigl sy'n rhychwantu llai na 3 blynedd ar gyfer prosiectau untro.
- Defnyddir arian craidd gan sefydliadau llai o faint i feithrin gallu a sicrhau eu cynaliadwyedd yn y tymor hir, tra nad yw cyllid prosiect yn aml yn gynaliadwy os nad yw'r gwaith a wneir yn cael ei brif-ffrydio.
- Dylai sefydliadau ddefnyddio arian i gynyddu eu gallu / prosiect sydd eisoes yn bodoli, nid dim ond cyllido'r hyn maen nhw'n ei wneud yn barod.
- Mae'n amheus a ellir cynnal sefydliadau ar ôl i'r cyllid craidd ddod i ben. Bydd rhai sefydliadau'n brwydro i barhau pan fydd cyllid wedi dod i ben - mae hyn hefyd yn arwain at oblygiadau i ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio osgoi sefyllfa lle mae sefydliadau'n ddibynnol ar gyllid craidd a chynorthwyo sefydliadau sy'n llai o faint, ac sydd â llai o arbenigedd wrth wneud cais am gyllid.

4.2 Cwestiwn 2 - A ddylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant gwmpasu'r nodweddion gwarchodedig mewn modd cytbwys?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

- Cytunodd 73% o'r ymatebwyr y dylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant gefnogi'r gwaith o gwmpasu'r nodweddion gwarchodedig. Roedd 19% o'r ymatebwyr yn anghytuno, ac ni wnaeth y gweddill gynnig sylwadau.
- Teimlai llawer o sefydliadau y dylid dyfarnu'r cyllid ar sail angen, gan lenwi bylchau, yn hytrach na'i rannu ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn y digwyddiadau:

- Dylid cefnogi cydbwysedd o ddarpariaeth. Fodd bynnag, roedden nhw'n cytuno y gallai fod yn anodd cael yr ystadegau a'r dystiolaeth ar gyfer rhai grwpiau gwarchodedig, ac y gallen nhw fod ar eu colled oherwydd hyn.
- Mae angen edrych ble mae'r bylchau a chroesawu ceisiadau gan sefydliadau i lenwi'r bylchau hynny. Canolbwyntio o bosibl ar nodweddion gwarchodedig lle mae tystiolaeth yn dangos eu bod nhw'n fwy difreintiedig.
- Yn ogystal, rhaid ystyried materion penodol mewn rhai ardaloedd daearyddol.
- Mae rhai nodweddion gwarchodedig yn cwmpasu cyfran lawer mwy o'r boblogaeth, felly ni fyddai'n briodol rhoi cyfran gydradd o gyllid i bob grŵp.
- Dylid darparu cyllid lle ceir tystiolaeth o angen.
- Mae angen i'r cyllid gydnabod fod gan bobl fwy nag un nodwedd warchodedig.

4.3 Cwestiwn 3 - A ddylai'r broses gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant ystyried ymhle y caiff gweithgareddau eu darparu er mwyn i ni allu sicrhau bod yr arian yn cwmpasu Cymru gyfan?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

- Cytunodd 70% o'r ymatebwyr y dylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant sicrhau darpariaeth ledled Cymru, gyda 24% o'r ymatebwyr yn anghytuno. Ni wnaeth y gweddill gynnig sylwadau.
- Unwaith eto, fe wnaeth sefydliadau nodi y dylid dyfarnu cyllid ar sail angen.
- Roedd rhai sefydliadau, er eu bod o blaid lledaenu'r ddarpariaeth ledled Cymru, yn credu y dylai grwpiau lleol llai o faint gael eu cefnogi

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn y digwyddiadau:

- Dylai swyddogion yr Is-adran Dyfodol Tecach sicrhau bod sefydliadau sy'n honni eu bod nhw'n gweithredu ledled Cymru yn cyflawni ar draws Cymru, a sicrhau bod y meini prawf yn cael eu nodi'n glir ymlaen llaw.
- Dylid cael cydbwysedd o ran y ddarpariaeth ddaearyddol.
- Mae angen cyllid lleol a chyllid ar gyfer Cymru gyfan.
- Bod yn ymwybodol o ddyfnder yr amddifadedd a'r pryderon rhanbarthol, a darparu adnoddau lle mae'r angen.
- Dylai dwy ffrwd gyllido fod ar gael - un ar gyfer sefydliadau llai o faint sy'n gweithio ar lefel lleol, ac un ar gyfer sefydliadau mwy o faint sy'n gweithio'n genedlaethol.
- Dylid ystyried sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni cwrmpas daearyddol.

4.4 Cwestiwn 4 - A ddylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant gefnogi'r amcanion yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 (yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd)?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

- Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyllido sefydliadau i gefnogi amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd 5% o'r ymatebwyr yn anghytuno â hyn, ac ni wnaeth y gweddill gynnig sylwadau.
- Awgrymodd llawer o sefydliadau y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio dull cydgysylltiedig er mwyn osgoi dyblygu cyllid lle mae cyllid ar gael mewn mannau eraill.

- Fodd bynnag, roedd rhai sefydliadau'n teimlo y dylid cael rhywfaint o hyblygrwydd i fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg drwy gydol y rhaglen gyllido.
- Teimlai sefydliadau na ddylid edrych yn ffafriol ar ymgeiswyr os oedden nhw'n ymdrin â mwy nag un amcan. Dylid adolygu tystiolaeth o brofiad sefydliad gyda phobl/grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig perthnasol fel rhan o gam asesu'r cais.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn y digwyddiadau:

- Cytunwyd yn gyffredinol y dylai'r arian gefnogi amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Mae angen ystyried materion sy'n dod i'r amlwg hefyd.
- Mae angen edrych ble mae'r bylchau a lle nodwyd bod angen yn bodoli.
- Dylai fod yn ofynnol i sefydliadau ganolbwyntio ar un neu ddau o amcanion y gallan nhw eu cyflawni.
- Dylai canllawiau nodi'n glir nad oes angen i bob prosiect gefnogi pob amcan, ac ni ddylai ddatblygu'n ymarfer ticio blychau.
- Dylid osgoi dyblygu os caiff amcanion eu cyllido yn rhywle arall

4.5 Cwestiwn 5 – A ddylid dyrannu'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant i gynigion sy'n canolbwyntio'n fwy ar feysydd â blaenoriaeth benodol?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

- Roedd 73% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai dyraniadau arian ganolbwyntio'n fwy ar feysydd â blaenoriaeth benodol. Roedd 14% o'r ymatebwyr yn anghytuno, ac ni wnaeth y gweddill gynnig sylwadau.
- Roedd sefydliadau'n awyddus i'r broses fod yn dryloyw wrth gytuno ar y meysydd blaenoriaeth, ac na ddylid cyllido meysydd blaenoriaeth a allai gael arian o rywle arall.
- Er bod rhai sefydliadau'n cytuno, roedden nhw'n teimlo na ddylid cyfyngu'r arian i feysydd blaenoriaeth yn unig, ond y dylid hefyd ystyried syniadau a chynigion arloesol.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn y digwyddiadau:

- Mae angen gwirio lle mae'r bylchau o ran cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb - os oes bwlch pendant sydd angen blaenoriaeth, yna mae'n syniad da pennu meysydd i'w cyllido, ond rhaid cael rhesymeg dros hynny, fodd bynnag.
- Mae ffrydiau cyllido o wahanol faint yn syniad da, ond mae angen sicrhau bod y lefelau'n iawn.
- Mae angen tryloywder ynghylch sut mae'r ardaloedd â blaenoriaeth yn cael eu nodi. Os bydd yr un ardaloedd yn cael eu nodi â'r rhai a nodir ar hyn o bryd, mae posibilrwydd y bydd yr un sefydliadau'n parhau i gael cyllid.
- Dylid nodi ardaloedd â blaenoriaeth ar sail tystiolaeth.
- Os bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar gyfer meysydd blaenoriaeth penodol yn yr un broses ag asesu ceisiadau ar gyfer cynigion mwy cyffredinol, mae risg o orfod dewis cais o ardal flaenoriaeth benodol yn hytrach na chynnig cyffredinol da iawn, ac i'r gwrthwyneb. Gellid defnyddio contractau ar gyfer ardaloedd blaenoriaeth.
- Ni ddylid buddsoddi mewn prosiectau lle gallan nhw fanteisio ar ffynonellau cyllid eraill - bydd hyn hefyd yn osgoi cyllido dwbl.

4.6 Cwestiwn 6 - A ddylai gweithio mewn partneriaeth fod yn rhan orfodol o'r meini prawf cymhwyster ar gyfer yr arian hwn, gan sicrhau mai dim ond ceisiadau ar y cyd y gellid eu gwneud?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

- Nid oedd 73% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai gweithio mewn partneriaeth fod yn orfodol, gyda 22% yn cytuno y dylai fod yn orfodol. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr gynnig sylwadau.
- Roedd llawer o sefydliadau yn erbyn y syniad o bennu gweithio mewn partneriaeth fel elfen orfodol, gan eu bod nhw'n teimlo bod nifer o resymau pam y gallai hyn effeithio ar lwyddiant prosiect. Fodd bynnag, teimlai llawer y dylid annog gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn y digwyddiadau:

- Dylid annog gweithio mewn partneriaeth, ond ni ddylai hynny fod yn orfodol, serch hynny.

- Efallai na fydd cyfansoddiadau rhai sefydliadau yn caniatáu gweithio mewn partneriaeth.
- Gall sefydliadau bach ddatblygu drwy weithio mewn partneriaeth. Lle mae sefydliadau bach yn ymwneud â chyflwyno gweithgarwch prosiectau, dylid ystyried cydnabod eu cyfraniad h.y. fe ddylen nhw gael budd ariannol yn sgil eu mewnbwn.
- Gall gweithio mewn partneriaeth gostio, o ran amser, trafodaethau, personoliaethau ac ati, sy'n gallu cael effaith andwyol ar gyflawni.
- Byddai angen cael diffiniad o 'weithio mewn partneriaeth' gan y gallai dehongliadau fod yn wahanol.
- Dylid darparu llythyrau o fwriad/cymorth yn ystod y broses ymgeisio.
- Byddai gweithio mewn partneriaeth yn gweithio o ran arian prosiect yn unig, nid arian craidd.
- Os nad oes sefydliad arweiniol/cynrychiadol - er enghraifft, ar gyfer pobl drawsrywiol - gall bylchau mawr fod yn y ddarpariaeth.

4.7 Cwestiwn 7 - A oes unrhyw bwyntiau eraill y dylem eu hystyried, yn eich barn chi, mewn perthynas ag arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

- Dylai pob prosiect gael ei fonitro a'i werthuso'n drylwyr.
- Defnyddio gwerthusiadau o weithgarwch presennol i benderfynu o bosibl ar y bylchau lle byddai cyllid yn fuddiol, a thrafod gyda grwpiau rhanbarthol
- O ran y camau ymgeisio, cafwyd awgrym y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio model tebyg i'r Loteri Fawr.
- Mae angen rhagor o gefnogaeth â chyllid i grwpiau cymunedol.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn y digwyddiadau:

- Byddai ffrwd gyllido lai o faint (yn ogystal â ffrwd gyllido fwy o faint) yn ddefnyddiol iawn ar gyfer sefydliadau llai o faint a sefydliadau sy'n dymuno cynnal prosiectau ymchwil (gallai'r rhain gael eu dyrannu'n flynyddol).

- Mae angen arweiniad da ar gyfer ymgeiswyr ac mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn realistig o ran yr hyn maen nhw'n ei ofyn.
- O ran gwerthuso grantiau, awgrymwyd y dylid ystyried barn buddiolwyr y prosiect. Dylai pob prosiect gael ei werthuso'n briodol.
- Cafwyd cefnogaeth i'r dull a ddefnyddir gan y Gronfa Loteri Fawr - er enghraifft, gweithdai i helpu sefydliadau i gyflwyno cais. Yn ogystal, mae gan sefydliadau sy'n ymgeisio weithwyr achos wedi eu neilltuo.
- Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ac yn cyfathrebu'n dda drwy gydol y broses ymgeisio, ac yn edrych ar y gwersi blaenorol a ddysgwyd ynghylch cefnogi ceisiadau.
- Awgrymwyd y dylid ystyried cam mynegi diddordeb neu gam cyfweliad.

5. Y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ymgynghori

Atodiad A

Mae'r tablau isod yn dangos y sefydliadau a ddaeth i'r digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn 2015.

27 Mai 2015
Caerdydd - Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Merched yn Gwneud Gwahaniaeth
Scope Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cymorth i Ferched Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
Anabledd Cymru
Chwaraeon Cymru
Draig Enfys
TUC Cymru
Pride Cymru
Sense Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Cymorth Hafod
RNIB
Merthyr Tudful Fwy Diogel
Plant yng Nghymru
Families Need Fathers – Both Parents Matter
Is-adran Seicoleg Glinigol Cymru
Pobl yn Gyntaf Casnewydd

9 Mehefin 2015
Cyffordd Llandudno - Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Grŵp Mynediad Arfon
Chwaraeon Anabledd Cymru
Fforwm Anabledd Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cymunedau yn Gyntaf
Cyngor ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru/Llais y Gymuned Conwy ac Ynys Môn
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Derwen, Tîm Integredig ar gyfer Plant Anabl
Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Roslin
Y Groes Goch Brydeinig
Tîm Ymyriad Teuluol – Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru

15 Mehefin 2015
Caerdydd - Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Cymdeithas Tai Taf
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Gweithredu dros Golli Clyw
Cytûn
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Cŵn Tywys Cymru
Cymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd
MTIB
Gofal a Thrwsio Cymru
Prifysgol Caerdydd
Rhwydwaith Trawsrywiol Unigryw
Adran Seicoleg Glinigol Cymru
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyngor ar Bopeth

19 Mehefin 2015
Abertawe - Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Penllergaer
Dinas a Chyngor Abertawe
Cyngor Sir Fynwy
Unity Group Wales
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru
Families Need Fathers – Both Parents Matter
YMCA Abertawe
The Bridge Mentoring Plus Scheme
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cymunedau yn Gyntaf Dwyrain Casnewydd
Cartrefi RCT
Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe

29 Mehefin 2015
Caerdydd - Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Alliance Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
RNIB Cymru
Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin
Consortiwm LHDT
Gofal Canser Tenovus
Cynghrair Henoed Cymru
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg